

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 7 Rhagfyr 2017

Canolfan Tywi, Fferm Dinefwr, Llandeilo, 6pm

Yn bresennol:

Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y FfMLI
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd y FfMLI
Jillie Gardiner (JG)
Richard Leggett (RL)
Geoff Williams (GW)
Dai Stacey (DS)

Ysgrifennydd (dros dro)

Jason Lawday (JL) - Swyddog Mynediad Cefn Gwlad CSC

Ymgynghorwyr / Arsyllwyr / Siaradwyr / Aelodau'r Cyhoedd

Cliff Cleaton (CC) - Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Dros Dro CSC
Richard Waters (RW) - CSC
Martin Dolan (MD) - Capita
Paul Barrett (PB) - Cerddwyr Llanelli (aelod?)

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Jane Evans (JE)
Caroline Evans (CE)

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/Arsyllwyr)

Stephen Pilliner (SP) - CCC
Sam Palmer (SamP) - CSC
Neil Thomas (NT) - CSC
Ian Jones (IJ) - CSC
Cyng. Peter Hughes-Griffiths - CSC

*Ystyr CSC yn y cofnodion hyn yw Cyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	GWEITHREDU
<p>Eitemau 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod.</p>	
<p>Eitem 2 - Aelodau Newydd / Ymddiswyddiadau</p> <p>Mae gan Clive Poulton o'r Gynghrair Anabledd ddiddordeb mewn bod yn Gynrychiolydd Anabledd y FfMLI, a bydd yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y FfMLI yng Nghaerfyrddin. Efallai y bydd Paul Barrett, Cerddwyr Llanelli, yn cymryd lle John Cook ar y FfMLI. Cytunodd i lenwi ffurflen gais.</p>	

<p>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</p> <p>Derbyniwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau.</p>	
<p>Eitem 4 - Diweddariad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)</p> <p><u>MD</u> - Cyflwynwyd y drafft cyntaf o'r CGHT - nid yw wedi'i gwblhau'n llwyr eto. Esboniwyd y broses - ymgynghori am 12 wythnos o ganol mis Medi, casglu'r ymatebion i greu drafft. Ymatebion i'r ymgynghoriad (rhanddeiliaid mewn 4 categori): Cynghorau Cymuned / Tref - ymatebodd 3 o 45 Tirfeddianwyr - 17 o ymatebion Sefydliadau - 6 ymateb Y Cyhoedd - 41 o ymatebion Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar-lein, cynhaliwyd gweithdy diwrnod o hyd yng Nghanolfan Tywi.</p> <p><u>MD</u> - Esboniodd fod rhai gofynion cydymffurfio / canllawiau statudol yn aneglur. Dim newidiadau o bwys i'r drafft a welodd y FfMLI o'r blaen. Dim newidiadau i bolisiâu, mân newidiadau i'r cynllun gweithredu.</p> <p><u>MD</u> - Ni fwriedir cyhoeddi ym mis Ionawr bellach fel y bwriadwyd yn wreiddiol, gan fod y canllawiau a ddarparwyd gan LIC yn nodi y dylid cyhoeddi'r CGHT cyn pen deuddeg mis ar ôl i'r CGHT blaenorol ddod i ben. Byddwn felly'n disgwyl i gyhoeddi ym mis Mawrth er mwyn caniatáu mwy o amser i gymeradwyo, mân newidiadau ac ati. Nid yw yr un Awdurdod arall wedi cyhoeddi eu cynllun eto, a byddai'n fuddiol cymharu ein cynllun ni ein hunain ag unrhyw gynllun a gyhoeddir yn y cyfamser.</p> <p><u>GW</u> - Pwy fydd yn cael y 'gair olaf' - CSC neu'r FfMLI, a beth yw'r broses gymeradwyo?</p> <p><u>MD</u> - Yn ansicr - byddai angen i CCC egluro hyn, gan nad yw hynny'n rhan o'i rôl.</p> <p><u>RL</u> - A ofynnwyd am gyngor gan Lywodraeth Cymru?</p> <p><u>MD</u> - Naddo, ond bydd yn gwneud ymholiadau.</p> <p><u>JG / RL</u> - Yn pryderu a yw'r FfMLI yn gyfrifol am gymeradwyo, a byddai angen gweld / cymeradwyo'r drafft ar ôl ymgynghori a chyn cyhoeddi.</p> <p><u>MD</u> - CSC fyddai'n penderfynu ynghylch hynny, gan ei fod yn gweithio'n unol ag agenda a osodir gan CSC.</p> <p><u>RL</u> - Yn pryderu bod yr amserlen yn dynn. A fydd angen i'r Pwyllgor Craffu gymeradwyo'r cynllun?</p> <p><u>KB</u> - Ar sail y cyfarfod ymgynghori, mae'r FfMLI yn gefnogol ac nid wyf yn rhagweld y ceir problem onid yw'r cynnyrch terfynol yn wahanol i'r drafft.</p> <p><u>MD</u> - Ni fydd y drafft wedi'i orffen cyn y Nadolig.</p> <p><u>MH</u> - Bydd yn mynd ar drywydd cymeradwyo wythnos nesaf.</p>	<p>MD</p> <p>MH</p>

<p>Eitem 5 - Ystyried a chymeradwyo cofnodion</p> <p>Derbyniwyd y cofnodion blaenorol yn amodol ar newid gan KB i Eitem 6.</p>	
<p>Eitem 6 - Materion yn codi o'r Cofnodion - eitemau nad oeddent eisoes wedi'u cynnwys ar yr agenda.</p> <p><u>MH</u> - Nid yw'r cofnodion blaenorol ar y wefan</p> <p><u>GW</u> - Mae gan rai FfMLlau eu gwefan eu hunain - a fyddai'n fuddiol cael gwefan i'r FfMLI ei hun yn hytrach na defnyddio gwefan CSC?</p> <p><u>Trafodwyd hyn.</u> Y farn gyffredinol oedd na fyddai hynny'n fuddiol oherwydd materion cyfieithu a'r ymrwymiad i sicrhau bod y wefan yn cael ei chadw'n gyfredol.</p> <p><u>CC</u> - Esboniwyd bod yr oedi yn deillio o'r sefyllfa barhaus o ran staff a'r gofynion cyfieithu. <u>GW</u> - a fyddai'n fuddiol creu Cofnodion mwy cryno?</p> <p><u>MH</u> - Bydd yn trafod hyn yn y Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth nesaf ym mis Mawrth.</p> <p><u>CC</u> - Y diweddaraf ynghylch staffio yn gysylltiedig â'r uchod.</p> <p><u>Eitem 5 - Materion yn Codi o'r Cofnodion</u></p> <p><u>MH</u> - Nid yw Adroddiad Blynyddol y FfMLI ar y wefan - a yw'n barod i'w gyhoeddi? Fe'i ffeiliwyd ym mis Mawrth / Ebrill.</p> <p><u>RL</u> - Problem weinyddol oedd hon y gallai staff gweinyddol, nad ydynt efallai'n rhan o'r tîm cyfreithiol, ei datrys, ac ni ddylai wyro adnoddau oddi wrth waith cyfreithiol. Gall uwch swyddog ymdrin â hyn. Mae hon yn ddyletswydd statudol. (Cytunwyd)</p> <p><u>Eitem 6 - Llwybr Dyffryn Tywi</u></p> <p><u>KB</u> - Mân gywiriad i drawsgrifiad y Cofnodion - dylai nodi bod CSC yn defnyddio'r esgusodion arferol, sef problemau'n gysylltiedig â'r ffaith nad yw tîrfeddianwyr am weld ceffylau ar lwybrau, lledau, arwynebeddau ac ati. Bydd yn darparu datganiad wedi'i ddiweddarau.</p> <p><u>MH</u> - gofynnodd am gopi o'r adroddiad llawn, sydd yn dal heb ddod i law.</p> <p><u>Eitem 7 - Fferm Wynt Brechfa</u></p> <p><u>MH</u> - Trafodwyd ansawdd gwael mapiau. Y mae wedi cysylltu â INNOGY, ac wedi cael ateb y byddant yn adolygu mapiau ac arwyddion.</p> <p><u>JG</u> - Nid yw rhai arwyddion wedi'u lleoli wrth fynedfeydd, ac mae hynny'n peri dryswch - bydd yn mynd ar drywydd hyn.</p> <p><u>Eitem 8 - Adolygiad o Deithiau'r Sir</u> Trafodaeth - a fydd CSC yn parhau i ddefnyddio mapiau papur neu'n datblygu apiau?</p>	<p>MH</p> <p>JL / LP (Lucy Pugh CSC)</p> <p>CC</p> <p>KB</p> <p>MH</p> <p>MH</p> <p>JG</p> <p>MM (Martin Murray CSC)</p>

<p><u>Eitem 9 - Recriwtio aelodau'r FfMLI</u></p> <p><u>MH</u> - Nid yw wedi gwahodd cynrychiolydd o CNC eto. Roedd cynrychiolydd blaenorol CNC wedi awgrymu nad oedd angen iddo fod yn bresennol ym mhob cyfarfod.</p> <p><u>GW</u> - Pwy yw'r unigolyn cyswllt ar restr bost CNC?</p> <p><u>KB</u> - Os nad oes cynrychiolydd ar gael, tybed a fyddai'n bosibl cael rhyw fath o gyfraniad, hy, datganiad ysgrifenedig?</p> <p><u>MH</u> - Mae rhai materion wedi cael eu hanfon ymlaen i CNC ac wedi derbyn ymdriniaeth.</p> <p><u>Eitem 10 - Recriwtio i'r Tîm Mynediad Cefn Gwlad</u></p> <p><u>MH</u> - bellach yn derbyn ceisiadau cynllunio.</p>	<p>MH</p> <p>JL</p> <p>MH</p>
<p>Eitem 7 - Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p><u>JL</u> - rhannodd gopiâu o ddatganiad ynghylch y diweddaraf gan Sam Palmer CSC. (anfon copiâu at aelodau)</p> <p><u>MH</u> - Darllenodd y datganiad yn uchel.</p> <p><u>MH</u> - Nid yw pryderon ynghylch cynnal a chadw yn y tymor hir wedi'u datrys eto. Bydd yn mynd ar drywydd hyn.</p> <p>Trafodaeth gyffredinol ynghylch negodi a gorchmynion prynu gorfodol.</p> <p><u>KB</u> - Os yw tir yn eiddo i CSC, pam na chaiff yr Awdurdod wneud penderfyniad ynghylch ceffylau?</p> <p><u>MH</u> - Beth fydd y strategaeth weithredol?</p> <p><u>GW</u> - Beth yw 'cyfleuster gweithredol' a 'chfundrefn cynnal'?</p> <p><u>KB</u> - Yn y cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth dywedwyd y byddai busnesau lleol yn elwa ac, o bosib, yn cyfrannu</p> <p><u>MH / CC</u> - Cadarnhawyd hefyd yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth na fyddai unrhyw arian yn dod o gyllideb HTC i dalu am greu a chynnal a chadw'r llwybr.</p> <p><u>DS</u> - Wedi defnyddio llwybrau beicio yn rhannau eraill o'r wlad, lle gwneir defnydd helaeth ohonynt. Nid yw o'r farn y bydd cymaint o ddefnydd yn cael ei wneud o'r llwybr hwn.</p> <p><u>GW</u> - Byddai'n dda cael budd i'r ardal leol.</p> <p><u>JG</u> - A yw CSC yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt ymgynghori â'r FfMLI ynghylch hyn?</p> <p><u>MH</u> - Bydd yn trefnu i Sam Palmer fynychu'r FfMLI.</p> <p><u>KB</u> - Nododd y bydd padiau diheintio ar gyfer beiciau yn cael eu defnyddio ar y llwybr lle bydd bioddiogelwch yn achosi pryder i dirfeddianwyr. Roedd rhoi hylif ar y padiau hyn yn</p>	<p>JL</p> <p>MH / SamP</p> <p>MH / SamP</p> <p>MH / SamP</p> <p>MH / SP</p> <p>MH / SamP</p> <p>MH / SamP</p>

<p>barhaus yn ymddangos fel ymrwymiad costus. Nid oedd unrhyw ymdrech debyg yn cael ei gwneud er mwyn caniatáu ceffylau.</p> <p><u>JG</u> - A ofynnwyd am gyngor gan filfeddygon ynghylch a oedd risg yn gysylltiedig â chysylltiad rhwng ceffylau a gwartheg?</p> <p><u>MH</u> - Gofynnodd a oedd gan aelodau'r FfMLI unrhyw gysylltiadau â thirfeddianwyr perthnasol.</p> <p><u>DS</u> - mae ganddo gysylltiadau â Choleg Gelli Aur, a bydd yn ymholi i weld a gafwyd cyflwyniad cadarnhaol gan y cyngor ynghylch mynediad i geffylau. <u>holi safbwyntiau'r tîr feddiannwr ac ati.</u></p> <p><u>KB</u> - Yn amheus iawn ynghylch bwriadau CSC a'i barodwydd i ddarparu mynediad i <u>geffylau</u>.</p> <p><u>CC</u> - Yn gallu deall rhwystredigaeth y FfMLI.</p>	<p>MH / SamP</p> <p>DS</p>
<p>Eitem 8 - Fferm Wynt Brechfa</p> <p><u>JG</u> - Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Gymunedol a ddarparwyd yn sgil datblygu'r fferm wynt.</p> <p><u>MH</u> - A all yr Awdurdod Lleol gael cyllid ar gyfer prosiectau lleol?</p> <p><u>JG</u> - Mae rhai sefydliadau allanol yn bwriadu gwneud cais am gyllid. Mae'n bosibl y gallai LIC wyro cyllid, ac nid yw LIC wedi cyhoeddi canllawiau ar y modd y gall cymunedau lleol elwa ar hyn. Mae INNOGY wedi cynnal cyfarfod â sefydliadau allanol, ac ar hyn o bryd yn chwilio am syniadau ynghylch sut i wario'r arian. Dylai'r gronfa gynnwys oddeutu £400,000 y flwyddyn.</p> <p><u>JG</u> - Pryder ynghylch atebolrwydd cyhoeddus o ran y traciau ar dir Mynediad Agored sydd oddi mewn i'r parth diogelwch ar gyfer tyrbinau a argymhellir yn TAN8, ond nad ydynt yn hawliau tramwy, gan nad oes canllawiau ynghylch y pellter oddi wrth y tyrbinau, hy, llwybrau coedwig. Mae'n bosibl na fydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys os na chadwir at ganllawiau diogelwch. Roedd hyn yn sail dros wrthwynebu a ddefnyddiwyd droeon. A oes cyllid ar gael ar gyfer llwybrau eraill?</p> <p><u>MH</u> - A fydd gan yr Awdurdod unrhyw amddiffyniad? Gallai busnesau bach fod yn agored o ran atebolrwydd os ydynt yn rhoi cyfarwyddyd i bobl ddefnyddio'r cyfleuster.</p> <p><u>GW</u> - Mewn safleoedd eraill ar dir Mynediad Agored, ceir achosion mynych lle na fydd cerddwyr yn cadw'n glir oddi wrth dyrbinau.</p> <p><u>JG</u> - Cafwyd achosion lle mae tyrbinau wedi cwmpo neu fynd yn wenfflam.</p> <p><u>JL</u> - Wedi bod yn mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid. Y diweddaraf ynghylch y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) a fydd yn dod i ben yn fuan ym mis Chwefror ac na fydd yn cael ei estyn. Mae llwybrau eraill bellach yn gwbl agored, gyda dwy bont newydd dros Afon Pib (y naill yn bont geffylau, a'r llall yn bont droed). Mae'r gwaith wedi cael ei ehangu i gynnwys pwyntiau mynediad a chysylltu llwybrau eraill â'r rhwydwaith</p>	<p>MH / JL</p>

<p>newydd. Mae JL yn gweithio gyda'r datblygwr a CNC i gyflawni gwelliannau i HTCau o fewn yr ardal sy'n cael ei datblygu. Y rhwydwaith newydd i ddatblygu'n rhan o'r rhwydwaith Mynediad Agored o fewn y goedwig.</p>	
<p>Eitem 9 - Recriwtio Aelodau i'r FfMLI</p> <p><u>PB</u> - Newidiadau i Gerddwyr Llanelli, ac yn fodlon ymuno â'r FfMLI yn lle'r aelod cyfredol nad yw'n gallu mynychu'r cyfarfodydd.</p> <p><u>CC</u> - Bydd yn cysylltu â / gwahodd Clive Poulton</p>	<p>MH</p>
<p>Eitem 10 - Recriwtio i'r Tîm Mynediad Cefn Gwlad</p> <p><u>CC</u> – Mae JL bellach wedi'i gadarnhau fel Swyddog Mynediad Cefn Gwlad, felly byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses o lenwi swydd Cynorthwydd. Cynorthwydd Chwiliadau newydd i ddechrau ddydd Llun.</p> <p><u>JL</u> - Ar hyn o bryd mae gennym gynorthwydd dros dro sy'n cynnal chwiliadau, ac ymgynghorydd arbenigol sy'n mynd rhagddo ag achosion cyfreithiol amrywiol.</p> <p><u>RL</u> - Wedi gofyn faint o amser a gymerir i lenwi swyddi gwag.</p> <p><u>CC</u> - Esboniodd fod y broses yn araf, gwaetha'r modd. Mae'r tîm cynnal a chadw bellach wedi'i staffio'n llawn.</p> <p><u>GW</u> - A yw PCBB wedi cael Prif Weithredwr Newydd?</p>	<p>MH</p>
<p>Eitem 11 - Adroddiad Materion Rhwydwaith HTC</p> <p><u>MH</u> - Mae'r materion cynnal a chadw wedi gostwng, ond y materion cyfreithiol wedi cynyddu.</p> <p><u>RL</u> - Mae'n dda bod gennym 12 mis o ystadegau i edrych yn ôl arnynt. A yw'r ystadegau yn seiliedig ar y flwyddyn galendr ynteu'r flwyddyn ariannol? Ceir rhai anghysondebau - rhai'n dangos cynnydd isel, eraill yn dangos cynnydd mawr. Nid yw'n ymddangos fel pe bai'r ystadegau cynnal a chadw yn gwneud synnwyr. Cafwyd cynnydd mawr mewn materion cyfreithiol. Yn ymwybodol o orchmynion cyfreithiol sy'n bodoli ers tro. A allai'r FfMLI gael dadansoddiad o faterion sy'n bodoli heb tro ac sydd heb eu datrys, a syniad o'r graddfeydd amser ar eu cyfer? Mae materion cynnal a chadw yn ymddangos yn sefydlog. Os edrychir ar hyn mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad, gallai'r ystadegau ddangos cynnydd. A fyddai modd creu fersiwn electronig o'r Dangosyddion?</p> <p>Trafodaeth gyffredinol ar sut i gynhyrchu ystadegau. A yw'r materion anodd yn cael eu gadael?</p> <p><u>JL</u> - Esboniad o hen achosion cyfreithiol / achosion cyfreithiol sy'n weddill. Mae rhai heb eu cofnodi ar CAMS gan nad ydynt eto wedi'u cofnodi ar y Map Swyddogol, ond maent wedi'u cofnodi yn yr Atodlen Ceisiadau. Hoffai'r FfMLI gael gwybodaeth am hen achosion.</p>	<p>LP</p> <p>JL / LP</p> <p>JL / LP</p>

<p><u>RL</u> - Hoffai allu cynnal ymarfer cymharu tebyg â'r ystadegau blynyddol nesaf.</p> <p><u>JG</u> - Mae'n bwysig iawn nodi y gall y ffaith nad yw CSC yn prosesu gorchmynion fod yn arf i'r FfMLI.</p> <p><u>CC</u> - Mae rhai Awdurdodau wedi lleihau nifer y staff, a heb fod yn prosesu unrhyw orchmynion o gwbl, ac mae hi'n gyfnod lle nad yw Awdurdodau, yn gyffredinol, yn gwneud gwaith.</p> <p><u>RL</u> - Nododd fod y FfMLI yn deall y problemau staffio presennol, ond mai eu dyletswydd yw cyflawni cyfrifoldebau'r FfMLI drwy gwestiynu ystadegau a materion sydd heb eu datrys.</p> <p><u>GW</u> - Beth sydd yn digwydd ynghylch PCBB o ran gwaith achos cyfreithiol?</p> <p><u>JL</u> / <u>CC</u> - Mae PCBB yn cyflawni ei waith cyfreithiol ei hun yn rhan o'r cytundeb dirprwyo.</p> <p><u>CC</u> - Byddwn yn gweld effaith toriadau parhaus yn y dyfodol.</p> <p>Trafodaeth gyffredinol ynghylch yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan Awdurdodau eraill, ac yn enwedig o ran blaenoriaethu.</p> <p><u>RW</u> - Beth yw teimladau'r FfMLI o ran cynnal a chadw rhwydwaith craidd yn unig?</p> <p>Ymateb negyddol yn gyffredinol. Trafodaeth bellach ynghylch dyletswyddau statudol yr Awdurdod Lleol, a'r ffaith na ddylid hepgor cyfrifoldeb dros gyflawni rhwymedigaethau statudol wrth flaenoriaethu. Gallai CSC fod yn gweithredu mewn modd anghyfreithlon, a gallai LIC graffu arno yn sgil hynny. Trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno Rhybudd i'r Awdurdod, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflawni rhwymedigaethau statudol a allai gostio'n ddruod mewn ffioedd cyfreithiol.</p> <p><u>MH</u> - A allai'r FfMLI gysylltu â LICC ynghylch y prinder cyllid?</p> <p><u>JG</u> - Ceir diffyg addysg o fewn yr Awdurdod ynghylch dyletswyddau a phwerau.</p> <p><u>RL</u> - Cyfarfod Swyddog 'Mannau Cerdded' gyda Martin Murray wythnos nesaf i drafod gwirfoddolwyr.</p> <p><u>PB</u> - Mae Cerddwyr Llanelli ar hyn o bryd yn gosod cyfeirbwyntiau ar Lwybr Calon Cymru.</p> <p><u>GW</u> - Mae Cerddwyr Dinefwr wrthi'n trafod ailgychwyn grŵp gwirfoddolwyr ar hyn o bryd.</p>	
<p>Eitem 12 - Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth</p> <p><u>KB</u> - Bu trafodaeth ynglŷn â gwirfoddoli, y FfMLI i gysylltu â grwpiau defnyddwyr (wedi gwneud), yna i gyfarfod â phobl allweddol er mwyn trafod sut i drefnu hyn.</p> <p><u>DS</u> - Yn cynorthwyo fel gwirfoddolwr gyda Sustrans. Nid yw Sustrans yn hoffi i wirfoddolwyr wneud llawer oherwydd pryderon ynghylch atebolrwydd ac ati.</p>	

<p><u>GW</u> - Nid yw Yswiriant ar gyfer Cerddwyr Dinefwr yn broblem. Bwriedir cwblhau'r broses o drefnu partiön gwaith gyda hyn. Roedd angen dod i gytundeb ynghylch ardaloedd gwaith - Cyngor Cymuned neu god post ac ati?</p>	
<p><u>RL</u> - Beth fydd wedi'i nodi yn y CGHT ynghylch gwirfoddolwyr?</p>	MD / CC
<p><u>MH</u> - Bydd hi'n bwysig sefydlu ymagwedd gyson fel sefydliad.</p>	
<p><u>GW</u> - Yn teimlo ei bod hi'n bwysig i dirfeddianwyr gymeradwyo'r gwaith, oherwydd bydd y gwaith yn cael ei gyflawni ar eu rhan.</p>	
<p><u>MH</u> - Y Diweddaraf am gyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth Ceir problemau yn gysylltiedig â chyllid: mae'r cyllid ar gyfer pontydd wedi gostwng, gan olygu bod llai o bontydd yn cael eu gosod nag a gynlluniwyd. Cafwyd yr arian oddi mewn i'r gyllideb.</p>	
<p><u>GW</u> - A gawn ni restr o'r pontydd sy'n cael blaenoriaeth?</p>	CC / AW
<p><u>MH</u> - Trafododd grynodedeb o bontydd. Mae 100 a mwy o bontydd yn ofynnol yn CAMS. Trafodaeth ynglŷn â chostau pontydd.</p>	(Alan Warner, CSC)
<p><u>KB</u> - Yn meddwl ei bod hi'n dda bod yr Awdurdod yn gallu darparu unrhyw gyllid ar gyfer pontydd yn yr hinsawdd sydd ohoni, ac er bod y swm yn llai na'r hyn ag a addawyd yn wreiddiol, roedd rhyw gyfraniad yn well na dim byd.</p>	
<p><u>MH</u> - Gofynnodd am gopi o gytundeb dirprwyo PCBB.</p>	CC?
<p><u>CC</u> - Nid yw'r cytundeb wedi'i sefydlu eto.</p>	
<p><u>MH</u> - I gysylltu â PCBB.</p>	MH
<p><u>MH</u> - Gofynnodd yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth a fwriedir ymgynghori â'r FfMLI ar Lwybr Beicio Dyffryn Tywi.</p>	
<p><u>MH</u> - Y diweddaraf am ostwng y gyllideb cynnal a chadw. Mae toriadau tebyg yn cael eu cyflwyno i'r holl wasanaethau ar draws y Cyngor.</p>	
<p><u>MH</u> - Cyflwynwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth y FfMLI gerbron y Penaethiaid Gwasanaeth. Ar raddfa genedlaethol, bwriedir y bydd FfMLIau yn cytuno o'r newydd i gydweithio â'r Awdurdod Lleol. Bwriedir trafod hyn ymhellach â'r Penaethiaid Gwasanaeth.</p>	
<p><u>MH</u> - Trafodwyd materion Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhTion) gyda Phenathiaid Gwasanaeth.</p>	
<p><u>MH</u> - Bydd cyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth yn cael ei gynnal ym mis Mawrth (dyddiad i'w gadarnhau).</p>	
<p><u>RL</u> - Yn deall y straen ariannol, ond yn ôl y canllawiau dylid neilltuo digon o gyllid. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar drugaredd gwleidyddiaeth, ond dylai'r adran allu cyflawni ei chyfrifoldebau statudol.</p>	

<p><u>GW</u> - O'r rhestr o bwyntiau a gyflwynwyd gerbron cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth, a ddilynwyd cyngor y FfMLI, ac os ddim, pam hynny? A gytunwyd ar y weithdrefn? Dylid amlygu pwyntiau.</p> <p><u>KB</u> - Yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth, nodwyd bod y FfMLI yn teimlo'n ynysig ac fel pe bai neb yn gwrandao arno. Rydym yn gwneud cynnydd. Rydym yn gwneud cynnydd yn sgil presenoldeb staff allweddol yng nghyfarfodydd y FfMLI a chyfarfodydd rheolaidd y Penaethiaid Gwasanaeth.</p> <p><u>MH</u> - Wedi trafod GRhT Morfa Bychan yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth. Ni wrandewir ar ddefnyddwyr, ac mae hynny wedi achosi problemau gan greu costau ychwanegol i'r Cyngor.</p>	
<p>Eitem 13 - Diweddariad ynghylch Morfa Bychan</p> <p><u>JL</u> - Y diweddaraf am y sefyllfa gyfredol. Er bod y gorchymyn arbrofol wedi dod i rym yn hwyrach na'r disgwyl, yn dweud bod y gorchymyn wedi cyflawni ei ddiben o ran amlygu materion, ac wedi tynnu sylw at faterion nas rhagwelwyd mohonynt yn flaenorol. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cytuno i weithredu mesurau ychwanegol. giât solet math coedwigaeth i greu rhwystr ar waelod y gilffordd fydd yn atal cerbydau rhag tresmasu oddi ar y gilffordd ar ffordd Dŵr Cymru ac ar eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol / y SoDdGA. Dŵr Cymru i ail-osod y clogfaen ar waelod y gilffordd er mwyn atal cerbydau rhag mynd ar y borfa. Esboniodd JL nad oedd unrhyw gyfleusterau parcio ar waelod y gilffordd, dim ond man troi a all gynnwys uchafswm o ddau gar. Cefnogaeth gyffredinol yn lleol i gau, gyda'r gwrthwynebiadau'n ymddangos fel pe baent yn tarddu o ymgyrch gan un unigolyn.</p> <p><u>MH</u> - Yr oedd yn synnu bod y GRhT yn dal i fodoli, oherwydd mewn trafodaeth flaenorol â John McEvoy, awgrymwyd y byddai'r gorchymyn yn cael ei ganslo.</p> <p><u>CC</u> - Cadarnhaodd y byddai'r GRhT yn cael ei gynnal am y cyfnod llawn hyd fis Chwefror, gan mai ond un gorchymyn arbrofol y ceir ei weithredu.</p>	
<p>Y Diweddaraf am Eitem 14 Nant Gronw</p> <p><u>JL</u> - Y diweddaraf am y sefyllfa gyfredol Mae JL wedi cyfarfod â rheolwr coedwigaeth CNC a chytuno ar waith clirio a chynnal i'w gyflawni yn y dyfodol agos. Cafodd llwybrau cerdded y sir eu gosod flynyddoedd yn ôl, ond ni chwblhawyd y gwaith cyfreithiol. Mae JL yn bwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd. Dylid cysylltu â'r ymholydd Anne Marshall, y soniwyd amdani yn y cofnodion blaenorol, i roi adroddiad o'r newyddion diweddaraf. Mae JL yn fodlon cysylltu â'r ymholydd.</p>	<p>JL</p>
<p>Eitem 15 - Y Diweddaraf am FP 2/21 Tir ger Fferm Pantgwyn, Whitemill.</p> <p><u>JL</u> - Y diweddaraf am y sefyllfa gyfredol, esboniad o faterion a chyflwr cyffredinol y llwybr. Cyfeiriwyd y cais i sylw'r Pwyllgor Cynllunio. Waeth beth fo'r canlyniad, ceir ymdriniaeth â'r materion sydd yn effeithio ar y llwybr ar hyn o bryd. Mae'r tiffeddiannwr wedi cytuno i symud standiau saethu er mwyn cydymffurfio â chanllawiau diogelwch, a hefyd wedi cytuno i adolygu arwyddion y safle. Mae'r tiffeddiannwr wedi penderfynu cynnal ei arolwg ei hun o ddefnyddwyr y llwybr drwy ffurflenni adborth sydd ar gael gan staff ar y safle o ben ddeheuol y llwybr. Ychydig o ddefnydd a wneir o'r llwybr gan bobl leol ar hyn o bryd,</p>	

<p>gyda'r rhan fwyaf ond yn defnyddio'r trac da ar y safle datblygu, gan fod gweddill y llwybr ar dir cyfagos mewn cyflwr gwael.</p> <p><u>MH</u> - Gellir gollwng yr eitem hon o'r agenda.</p>	
<p>Eitem 16 - Eitemau ar yr Agenda Nesaf - trafodaeth</p> <p><u>GW</u> - Holi ynghylch cau croesfannau Network Rail - a allai'r FfMLI gael y newyddion diweddaraf ar gyfer y cyfarfod nesaf?</p> <p><u>KB</u> - Hoffai CSC fabwysiadu strategaeth marchogaeth - eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf? Hefyd, mae angen cynnwys Llwybr Beicio Dyffryn Tywi ar yr agenda, a chael cynrychiolydd o CSC yn bresennol.</p> <p><u>RL</u> - Gwirfoddoli i fod ar yr agenda, a chynnwys cynrychiolydd o CSC i fynychu cytundeb dirprwyo PCBB ar yr agenda.</p>	<p>CC</p> <p>CC / SamP</p> <p>MM</p>
<p>Eitem 17 - Unrhyw Fater Arall</p> <p><u>MH</u> - Mynegodd ddiolch wrth GW am fynychu cyfarfod Cadeiryddion FfMLlau De Cymru ar 5 Hydref. Roedd MH wedi methu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw gan fod cyfarfod FfMLI wedi'i drefnu ymlaen llaw.</p> <p><u>GW</u> - Y Diweddaraf am y Cyfarfod Uchod: y brif eitem oedd cydweithio rhwng Fforymau Mynediad Lleol ac Awdurdodau Lleol, a thrafodaeth gyffredinol. Trawsgynrychiolaeth dda yn y cyfarfod.</p> <p><u>RL</u> - Y Diweddaraf am Barc Gwledig Gelli Aur. Siaradodd MH â'r perchennog, Mr. Salmon, bydd y caffi yn ail-agor y flwyddyn nesaf, ond bydd y cyfyngiadau ar fynediad i'r cyhoedd yn parhau oherwydd pryderon ynghylch iechyd a diogelwch. Roedd y Goedfa yn dal ar gau i'r cyhoedd. Mae modd cael mynediad drwy drefnu apwyntiad. Trafodaeth gyffredinol - bydd y FfMLI yn monitro'r sefyllfa.</p> <p><u>MH</u> - Adroddiad blynyddol FfMLI* - a oes unrhyw werthu iddo? Pam nad yw wedi'i gynnwys ar y wefan? Y mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i lunio'r adroddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwch fod yr adroddiad hwn wedi'i osod ar y wefan cyn cyfarfod diwethaf y FfMLI. <p><u>JG</u> - Trafodaeth gyffredinol ynghylch presenoldeb.</p> <p><u>RW</u> - Diolchodd i'r FfMLI a mynegodd ddiolch am waith y Fforwm.</p> <p><u>JG</u> - Gorfodaeth yn gysylltiedig â gwrychoedd ac ymylon priffyrdd. Mae'r adran briffyrdd wedi bod yn gofyn i dirfeddianwyr gyflawni gwaith cynnal a chadw. A yw Priffyrdd wedi bod yn gwneud gwaith diangen, a ellid cwtdogi'r gwaith hwnnw er mwyn arbed arian?</p> <p><u>MH</u> - Ddim yn credu bod hyn yn rhan o gylich gwaith y FfMLI.</p>	<p>CC</p> <p>CC / SamP</p> <p>LP*</p>